**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 09-00(min)**

**Cofnodion**

**Dyddiad:** 21 Mehefin 2000
**Amser:** 9.00am i 12.05pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| *Aelodau'r Pwyllgor Amgylcheddol, Cynllunio a Thrafnidiaeth* | |
| Richard Edwards (eitem 3) | Preseli Sir Benfro |
| Christine Humphreys (eitem 3) | Gogledd Cymru |
| *Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru* | |
| Peredur Hughes | Is-gadeirydd |
| Emyr Hughes | Uwch Ymgynghorydd Technegol |
| *Undeb Amaethwyr Cymru* | |
| Rhian Nowell-Phillips | Swyddog Defnydd Tir |
| Arwyn Owen | |
| *Cymdeithas y Tirfeddianwyr* | |
| Julian Salmon | Cyfarwyddwr |
| Ross Murray | Aelod o Bwyllgor Gwaith Cymru |
| Mark Jones | Ymgynghorydd Cynllunio |
| *Coed Cymru* | |
| David Jenkins | Cydlynydd |

| | |
|---|---|
| *Partneriaeth Amaeth-Fwyd* | |
| Christine Lewis | Cadeirydd |
| Gareth Rowlands | Cadeirydd Grp Strategaeth Diwydiant Organig Cymru |
| Arwyn Davies | Cyfarwyddiaeth Fwyd WDA |
| Catrin Jones | Cyfarwyddiaeth Fwyd WDA |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie (eitemau 2 a 5) | Pennaeth yr Adran Amaethyddiaeth |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac amnewidiadau a datganiadau o ddiddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a dywedodd a ddaeth unrhyw ymddiheuriadau i law. Datganodd Peter Rogers ei ddiddordeb fel ffermwr a Mick Bates fel partner mewn busnes ffermio. Datganodd Richard Edwards ddiddordeb yn eitem 3 fel aelod o bwyllgor penderfyniadau cynllunio.

**Eitem 2: Adroddiad yr Ysgrifennydd Cynulliad**

2.1 Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad llafar gan yr Ysgrifennydd Cynulliad a wnaeth y pwyntiau canlynol:

- cafodd manylion y diwygiadau arfaethedig i'r cynllun Tir Mynydd eu trafod am y trydydd tro gyda'r llefarwyr ar amaethyddiaeth. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Undeb Cenedlaethol y Amaethwyr (NFU) ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW). Trafodwyd cynigion hefyd gyda Nick Brown, a Gweinidogion Amaethyddiaeth yr Alban a Gogledd Iwerddon, a roddodd sêl eu bendith ar y safbwynt a gymerwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf. Cafwyd ymagwedd debyg mewn cysylltiad â'r cynlluniau atebol yn rhannau eraill y DU. Byddai'r cynigion diwygiedig ar gyfer Cymru yn cael eu cyflwyno yn ffurfiol ger bron y Comisiwn yn ddiweddarach yn yr wythnos;
- ymgynghorwyd â'r diwydiant yn ddiweddar yngln â Gorchymyn Nodi Defaid a Geifr 2000 oedd yn datgan y dylid marcio defaid a geifr yn barhaol i nodi'r ddeiliadaeth lle cawsant eu geni cyn gynted â phosibl, a chyn iddynt adael y ddeiliadaeth lle cawsant eu geni mewn unrhyw achos. Byddai'r cynigion yn fuddiol iawn o ran rheoli afiechydon anifeiliaid. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 12 Mehefin ac roedd y diwydiant wedi derbyn yn fras bod yn rhaid mabwysiadu'r rheolaethau pellach hyn. Ar hyn o bryd roedd swyddogion yn ystyried yr ymatebion a byddent yn cynghori'r Ysgrifennydd Cynulliad ar y ffordd ymlaen yn y dyfodol agos;
- cafodd nodyn ar y cynigion Ewropeaidd yngln â'r Enseffalopathïau Spwngffurf Trosglwyddadwy (TSE) a'r Deunydd Risgiau Penodedig (SRM) eu dosbarthu i'r aelodau yn amlinellu'r sefyllfa

ddiweddaraf. Roedd cynnig y TSEs sy’n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Senedd Ewrop ar gam cynnar yn y broses. Caniataodd y testun drafft diweddaraf i aelod- wladwriaethau sy’n gweithredu "mesurau cyfwerth" gael eu heithrio rhag difa gyr cyfan o wartheg. Dadleuodd y DU fod ei rheolau BSE yn cynnwys mesurau o’r fath. Roedd Nick Brown yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cael y DU i drafod gwelliannau i reoliad drafft y TSE er mwyn diogelu buddiannau Cymru;

- roedd y Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth yn bwriadu cynnal Ysgol Haf ar Ddatblygiad Gwledig Rhyngwladol yng Nghymru. Roedd gan y Sefydliad 41 o aelodau o’r Cenhedloedd Unedig o bob rhan o Ewrop a’i nod yn bennaf oedd cynyddu medrau a rôl merched yn yr ardaloedd gwledig. Byddai’r Ysgol Haf yn cynnig hyfforddiant mewn arfer gorau , cyfnewid profiadau rhyngwladol a theithiau astudio. Roedd paratoadau yn cael eu gwneud gan weithlu bach gan gynnwys swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol a’r WDA a Fforwm Gwledig Cymru;
- byddai’r Arolwg Jigso i Gwsmeriaid, a fyddai’n cael ei adnabod fel "Arolwg Cwsmeriaid Ffermio Cymru 2000" yn dechrau ar 21 Mehefin. Byddai ffermwyr yn cael eu gwahodd i ddweud wrth y Cynulliad Cenedlaethol pa welliannau yr hoffent ei weld o ran gweinyddu grantiau’r Polisi Amaethyddol Cyffredinol a thaliadau cymorthdaliadau gyda’r nod penodol o wneud eu bywydau yn haws. Byddai’r canlyniadau ar gael ym mis Gorffennaf a byddai’r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd;
- bu Cwmni Cig Cymru yn weithredol iawn o ran siarad â ffermwyr am fanteision y cynnig mewn cyfres o gyfarfodydd ledled Cymru. Bu cynrychiolwyr cymdeithas yr arwerthwyr yn cymryd rhan mewn rhai cyfarfodydd ac roedd y Cwmni am weithio gydag arwerthwyr lle bynnag y bo’n bosibl. Roedd yn rhaid i’r ffermwyr gyflwyno eu ceisiadau i ymuno â’r cwmni erbyn 3pm ar ddydd Mercher 28 Mehefin;
- roedd Cynllun Menter Wledig Ffermwyr Ifanc Cymru i gael ei lansio ar 4ydd Gorffennaf. Bu’r cynllun yn rhedeg ers 1997 i roi cyngor ac arweiniad i ffermwyr ifanc yngln ag arallgyfeirio. Ariannwyd yr ail gam (blwyddyn 2 o raglen 3 blynedd) yn rhannol gan EAGGF a chafwyd grant datblygu gwledig o £15,000 gan y Cynulliad.

2.2 Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- gofynnwyd i’r Ysgrifennydd Cynulliad beth byddai’n ei wneud pe na bai elfen rhwyd achub cynigion diwygiedig Tir Mynydd yn cael ei derbyn gan y Comisiwn Ewropeaidd a beth fyddai’r gyfradd debygol fesul erw. Nododd y Pwyllgor fod y diogelwch ychwanegol yn ddiamwys yn y cynigion, a, phe na bai’n cael ei dderbyn, roedd y Gweithgor yn barod i wneud safiad gwleidyddol. Byddai gweinidogion tiriogaethol eraill y DU yn cyflwyno cynigion tebyg i’r CE ac roeddent yn cefnogi safbwynt Cymru yn gyffredinol. Roedd y modelu a wnaed hyd yn hyn ar lefel tebygol y taliadau at ddibenion esboniadol yn unig ac roedd yn seiliedig ar lefel gyllidol hanesyddol o £26.8m ar gyfer Cymru. Nid oedd yn bosibl dweud beth fyddai’r gyfradd fesul erw ar hyn o bryd ond unwaith y câi’r cynigion eu derbyn gan y Comisiwn byddai taflen yn cael ei chyhoeddi i ddangos i’r ffermwyr sut y byddai’r cynllun newydd yn gweithio;
- mynegwyd pryder yngln â’r ffaith bod y cynigion Tir Mynydd diwygiedig wedi peri dryswch i’r ffermwyr. Roedd angen iddynt wybod sut y byddai’r cynllun yn gweithio a beth fyddai lefel tebygol y taliadau. Dywedodd y Cadeirydd fod cytundeb cyffredinol ymhlith aelodau’r Pwyllgor

bod y CE wedi ymdrin â’r broses o ddiwygio cynllun yr Ardaloedd Llai Ffafriol yn wael. Fodd bynnag roedd y Pwyllgor wedi cytuno ar y cynigion diwygiedig mewn egwyddor a byddai hyn yn cadw’r taliadau i ffermwyr mor agos â phosibl i’r patrwm gwreiddiol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y gallai trafodaethau pellach yngln â chynllun gwreiddiol Tir Mynydd olygu y byddai’r broses o gymeradwyo’r Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei dal yn ôl ac na fyddai’r ffermwyr o bosibl yn derbyn unrhyw daliadau tan y Gwanwyn nesaf o ganlyniad;

- gofynnwyd i’r Ysgrifennydd Cynulliad yngln â’r cynnydd a wnaed o ran sefydlu gweithdrefn apeliadau annibynnol. Nododd y Pwyllgor y cafodd trafodaethau eu cynnal â’r undebau amaethwyr. Byddai nodyn yn cael ei darparu yn nodi’r sefyllfa ddiweddaraf;
- atgoffwyd y Pwyllgor y cynigiwyd y dylid cynnal arolwg o effaith deddfwriaeth Ewropeaidd ar amaethyddiaeth Cymru yn ystod ei gyfarfod ar 7 Mehefin. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad bod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd, yn ei gyfarfod yr wythnos ddiwethaf, wedi penderfynu ystyried ac edrych yn fanwl ar y busnes nesaf o dan bob Llywyddiaeth yn ei gyfarfod yr wythnos ddiwethaf. Roedd y Cadeirydd yn ymwybodol o’r angen i’r Pwyllgor ddeall deddfwriaeth Ewropeaidd a byddai’n ceisio adeiladu hwn i mewn i’r rhaglen waith.

*Pwyntiau gweithredu*

- Nodyn i’w ddarparu ar y cynnydd tuag at sefydlu gweithdrefn apeliadau annibynnol - **Huw Brodie**

**Eitem 3: Arolwg o Arallgyfeirio: Cynllunio** - ARD 09-00(p1), ARD 09-00(p2), ARD 09-00(p3), ARD 09-00(p4)

3.1 Ymunodd Richard Edwards, y Cadeirydd a Christine Humphreys o’r Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth â’r Pwyllgor am yr eitem hon. Dywedodd Rhodri Glyn Thomas fod y gwaith cynllunio wedi’i nodi fel nodwedd allweddol yng nghyfarfodydd ymgynghori’r Pwyllgor ar arallgyfeirio economaidd. Yn dilyn hyn, cytunodd y Pwyllgor i’w ystyried fel rhan gyntaf ei arolwg.

3.2 Croesawodd y cadeirydd y cynrychiolwyr o Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU), Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CLA) a Choed Cymru. Byddai’r Pwyllgor yn clywed gan Fwrdd Croeso Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cydffederasiwn Busnesau Bach, yr Asiantaeth Cadwraeth Amathyddol Wledig a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddydd Iau 29 Mehefin. Roedd pob sefydliad wedi cyflwyno papur yn nodi eu cynigion ar gyfer gwella’r system gynllunio neu’r canllaw cynllunio er mwyn hwyluso’r broses arallgyfeirio. Yn dilyn dwy sesiwn i ystyried y cynigion byddai angen i’r Pwyllgor gytuno ar set o argymhellion yn ei gyfarfod ar 5 Gorffennaf.

3.2 Cafwyd cyflwyniadau gan NFU, FUW, CLA a Choed Cymru a oedd yn canolbwyntio ar brif bwyntiau eu papurau. Yn ystod y drafodaeth, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- roedd ardaloedd gwledig ar draws Cymru yn gwahaniaethu’n sylweddol o ran eu cymeriad ac

roedd felly yn anodd llunio canllaw polisi cynllunio a fyddai'n briodol i bob ardal yng Nghymru. Roedd angen i'r awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu cynlluniau lleol a fyddai'n bodloni amgylchiadau eu hardaloedd;

- roedd y cynigion yn cynnwys galwadau am "ddosbarth busnes gwledig".

  Roedd hyn yn codi cwestiwn yngln â sut i ddiffinio 'gwledig' a sut y gellid cymhwyso dosbarth o'r fath yn ymarferol gan mai prin oedd yr ardaloedd yng Nghymru nad oeddent yn wledig yn bennaf ac eithrio rhai rhannau o'r de ddwyrain. Nododd y Pwyllgor y cafodd diffiniad ymarferol o'r gair "gwledig" ei ddatblygu mewn cysylltiad â rhyddhad trethi ar gyfer swyddfeydd post gwledig a bod y diffiniad mwyaf cyffredin yn ymwneud â dwysedd poblogaeth. Tynnodd y CLA sylw at rai o'r problemau sy'n gyssylltiedig â 'dosbarth busnes gwledig', er enghraifft, gallai categori o'r fath lesteirio twf busnes. Byddai hefyd yn anodd gorfodi mesurau o'r fath. Dadleuodd Coed Cymru y gellid seilio cynllun ar natur y busnes, gan nodi'r rheini a leolwyd yn bennaf mewn cyd-destun gwledig;

- nodwyd y diffiniad o ardaloedd gwledig yn aml fel "cefn gwlad agored" mewn canllawiau cynllunio ond nid oedd hyn yn cymryd pentrefi gwledig i ystyriaeth. Byddai angen i ddosbarth busnes gwledig gydbwyso anghenion cefn gwlad agored â phentrefi gwledig;
- yn ei bapur, cynigiodd yr FUW restr o ddatblygiad gwledig a ganiateir. Roedd pwysau mawr am ddatblygiad mewn ardaloedd gwledig a fyddai'n agosach at y prif ardaloedd trefol, megis Pen-y-bont. Byddai'n hynod o anodd diogelu tir amaethyddol o ansawdd da mewn ardaloedd o'r fath pe cynhwysid y defnydd o ddiwydiant ysgafn yn rhestr y datblygiad a ganiateir. Cynigiodd y CLA y dylid datblygu ystod o ddefnyddiau gwledig a ganiateir a fyddai'n llai penodedig na rhestr;
- roedd y pwysau i ddatblygu tir gryn dipyn yn llai mewn ardaloedd fel Ceredigion. Roedd dadl o blaid ei gwneud yn haws i newid y defnydd o adeiladau fferm presennol. Cyfyngwyd ar y broses o ddatblygu tir mewn trefi gwledig a byddai caniatáu newid defnydd o adeiladau fferm segur o bosibl yn hybu datblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig ym mherfeddion y wlad;
- roedd ffermwyr o'r farn bod y broses o wneud ceisiadau cynllunio yn un anodd. Awgrymwyd bod angen gwasanaeth ymgynghori proactif i'w helpu drwy'r broses. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r awgrym hwn.
- Gan dderbyn yr angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer adeiladau newydd, roedd CLA o'r farn y byddai arweiniad clir o ran cynllunio'r adeiladau o gymorth i ffermwyr wrth ddewis opsiynau oedd â'r siawns orau o gael eu cymeradwyo. Cafwyd cytundeb cyffredinol y dylid adolygu ac ailgyhoeddi rhywbeth tebyg i'r llyfryn "*A Farmer's Guide to the Planning System*" a gyhoeddwyd gan y llywodraeth ganolog;
- yn ei bapur roedd y CLA wedi cynnig y dylid caniatáu datblygiad o gwmpas cyfadeiladau ffermydd a ddosbarthwyd mewn canllawiau cynllunio fel cefn gwlad agored ar hyn o bryd. Roedd rhai aelodau o'r farn bod unedau preswyl a ddarparwyd yn y modd hwn, a newid adeiladau fferm segur yn aml y tu hwnt i gyrraedd pobl leol am eu bod yn rhy ddrud ac am nad oedd cludiant cyhoeddus ar gael yno. Roedd y cynnig hefyd yn groes i egwyddorion datblygiad cynaladwy.
- dywedodd y CLA y dosbarthwyd cyfadeiladau fferm fel cefn gwlad agored o dan ganllawiau cynllunio presennol. Roedd dadl o blaid ailddosbarthu rhai cyfadeiladau fferm mwy a'u dangos

ar wahân ar fapiau'r awdurdodau lleol er mwyn tynnu sylw'r cynllunwyr at eu bodolaeth. Dywedodd yr NFU ei bod yn bwysig i ffermwyr newid adeiladau fferm nad oedd iddynt ddefnydd a oedd yn ariannol ymarferol er mwyn eu galluogi i gynhyrchu incwm. Pe gwnaed cynnig i'w defnyddio at ddiben preswyl, roedd modd i'r awdurdodau lleol atodi cyfyngiad anghenion lleol;

- un o themâu cyffredin y papurau oedd y diffyg cysondeb rhwng yr awdurdodau cynllunio wrth gymhwyso canllawiau cynllunio. Croesawyd arolwg y CLA fel tystiolaeth i ddangos nad oedd y rhai a wnâi geisiadau am ganiatâd cynllunio yn disgwyl iddynt gael eu gwrthod. Roedd gan y Cynulliad rôl o ran hyfforddi ac addysgu cynghorwyr a swyddogion yr awdurdodau cynllunio lleol i ddatblygu ymagwedd gyson;
- roedd y canllawiau cynllunio presennol yn gofyn i brojectau arallgyfeirio aros yn ategol i'r fenter sylfaenol. Fodd bynnag, roedd yn bwysig fod arallgyfeirio yn creu gwaith ar gyfer y gymuned wledig ehangach.
- gofynnwyd i'r CLA sut y dylai'r awdurdodau cynllunio gydbwyso ystyriaethau amgylcheddol â'r rhain cymdeithasol ac economaidd o dan y canllawiau datblygu cynaladwy. Dywedodd y CLA bod gofyn i'r awdurdodau cynllunio lleol gysoni amcanion datblygiad cynaladwy gyda'r canlyniad y byddai ystyriaethau amgylcheddol yn dra amlwg. Yn lle hynny dylid gofyn iddynt integreiddio'r amcanion. Byddai newid y geiriad yn ei gwneud yn haws i gydbwyso gofynion datblygiad cynaladwy;
- roedd awdurdodau cyhoeddus, megis CADW a'r parciau cenedlaethol, weithiau'n ymddangos fel petaent yn creu rhwystrau i ddatblygiad. Dywedodd y CLA fod angen cael dialog rhwng ymgeiswyr, eu hymgynghorwyr a'r awdurdodau cynllunio i oresgyn problemau o'r fath.
- dywedodd Coed Cymru bod angen diffiniad clir o goedwigaeth a fyddai'n cynnwys prosesu coed a dyfir gartref neu a gynhyrchir yn lleol. Roedd hefyd angen rhywfaint o eglurhad ar y gweithgareddau gwledig a ganiateir.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr yr NFU, FUW, CLA a Choed Cymru am eu cyflwyniadau a'u cyfraniadau i'r drafodaeth. Roedd angen i'r system gynllunio fod yn hyblyg ond dylid ei chymhwyso'n gyson. Roedd nifer o gynigion diddorol wedi dod i'r fei y byddai'r Pwyllgor yn eu hystyried. Gwahoddodd y rhai oedd yn bresennol i anfon syniadau neu sylwadau pellach at yr Ysgrifenyddiaeth.

**Eitem 4: Partneriaeth Amaeth-Fwyd** - ARD 09-00(p5)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr y Bartneriaeth Amaeth-Fwyd i'r drafodaeth. Dywedodd Gareth Rowlands wrth y Pwyllgor am waith y Grp Strategaeth Organig. Roedd o'r farn fod gan gynhyrchu organig a phrosesu ddyfodol pwysig o fewn amaethyddiaeth Cymru. Roedd yn cydweddu'n dda â'r ddelwedd o Gymru ac roedd iddo fanteision o ran yr amgylchedd ac iechyd. Roedd angen i'r Cynulliad roi sicrwydd i'r ffermwyr y byddai arian ar gyfer newid i ddulliau organig yn parhau i fod ar gael. Gwahoddodd y Pwyllgor i agoriad y Ganolfan Ragoriaeth Organig yn Aberystwyth am 2pm ddydd Llun 10 Gorffennaf.

4.2 Darparodd y Bartneriaeth Amaeth-Fwyd dablau (a atodir bellach fel atodiad i ARD 09-00(p5)) i ddangos yr ymrwymiad ariannol tebygol sydd ei angen os am gyrraedd y targed o 10% o dir yn cynhyrchu'n organig erbyn 2003. Dywedodd Catrin Jones fod llai na 1.5% o dir Cymru yn cael ei gynhyrchu'n organig ar hyn o bryd. Amcangyfrifodd y Bartneriaeth y byddai angen tua £45 miliwn mewn grantiau newid i ddulliau organig dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cyrraedd y targed. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad fod y gyllideb ar gyfer newid i ddulliau organig wedi tyfu'n sylweddol o ychydig dros £1/4 miliwn ym 1999 i £2.9 miliwn eleni. Roedd y targed yn un uchelgeisiol ac roedd y gyllideb ar gyfer y dyfodol yn fater i'r Cabinet.

4.3 Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- gofynnwyd i'r Bartneriaeth Amaeth-Fwyd a oedd sectorau arbennig yn cael eu targedu ac a allai hybu manteision iechyd bwyd organig arwain pobl i droi yn erbyn amaethyddiaeth gonfensiynol. Nododd y Pwyllgor fod yr ardaloedd hynny oedd â'u strategaethau amaeth-fwyd eu hunain – o ran llaeth, cig oen a chig eidion – wedi'u targedu'n dda. Roedd hefyd cyfle i ddatblygu'r sector llysiau organig. Nid ystyriwyd fod manteision iechyd bwyd organig yn fygythiad i amaethyddiaeth gonfensiynol ond roedd y grwpiau ymhlith sectorau gwahanol yn ystyried y cwestiwn;
- bu ffermwyr yn gyndyn i newid i ddulliau organig o gynhyrchu a gofynnwyd i'r Bartneriaeth sut y gellid mynd i'r afael â hyn. Nododd y Pwyllgor fod yr undebau bellach yn ymwneud â'r sector organig. Sefydlwyd nifer o ffermydd arddangos a fyddai'n dangos y manteision ymarferol i ffermwyr. Roedd y Ganolfan ar gyfer Ffermio Organig yn darparu gwasanaeth ymgynghorol i helpu gyda phroblemau;
- gofynnwyd i'r Bartneriaeth a ellid bodloni gofynion yr archfarchnadoedd o ran eu cyflenwi'n rheolaidd ac yn ddigonol. Nododd y Pwyllgor ei fod yn cymryd dwy flynedd a hanner i newid i statws organig ac y gellid defnyddio'r cyfnod hwnnw i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi. Roedd rhai archfarchnadoedd, a oedd yn gweithio gyda'r Gymdeithas Pridd, wedi arwyddo siarter ac o dan ei thelerau byddent yn talu costau cynhyrchu ynghyd ag elw'r cynnyrch organig fel buddsoddiad yn nhwf y sector yn dyfodol;
- o ystyried penderfyniad Iceland i werthu llysiau organig am yr un pris â llysiau nad oeddent yn organig gofynnwyd i'r Bartneriaeth pa gynlluniau oedd ganddi i ddatblygu'r sector cynnyrch gardd organig yng Nghymru ar hyn o bryd. Nododd y Pwyllgor prin oedd y llysiau organig a dyfir yng Nhymru ar hyn o bryd. Byddai'r Bartneriaeth yn ystyried cynnyrch gardd organig yn fwy manwl y flwyddyn nesaf. Roedd ymchwil gan Goleg Amaethyddiaeth yr Alban wedi nodi bod gan gynnyrch gardd organig botensial ar gyfer ei ddatblygu yng Nghymru. Roedd ardaloedd â thir amaethyddol o ansawdd uchel yn agos i farchnadoedd trefol mawr yn cynnig y potensial gorau;
- gofynnwyd i'r Bartneriaeth yngln â datblygu cyfleusterau prosesu cynnyrch organig. Nododd y Pwyllgor y cafwyd nifer o grantiau yn ddiweddar tuag at brosesu bwyd organig. Roedd y WDA yn ymchwilio i'r gallu i brosesu bwyd organig ac roedd lefel gynyddol o ddiddordeb gan broseswyr bwyd yn y sector organig.

4.4 Rhoddodd Christine Lewis y newyddion diweddaraf yn gryno am y Gwmni Cig Cymru. Cafodd

arwerthwyr eu cynnwys yn y trafodaethau a arweiniodd at lansio'r cwmni, a dywedodd ei bod yn drueni nad oeddent yn gyfan gwbl yn gefnogol i'r fenter. Byddai Cwmni Cig Cymru yn rhoi ffermwyr mewn safle cryf i drafod â'r archfarchnadoedd oherwydd mai hwy fyddai'r unig rai i fod ar eu hennill petai'r fenter yn methu. Os digwydd hynny, byddai'r strategaeth Amaeth-Fwyd yn parhau i ddilyn ystod eang y pwyntiau gweithredu eraill yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cig Oen a Chig Eidion, ond byddai ffermwyr wedi colli cyfle gwirioneddol.

4.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r Bartneriaeth Amaeth-Fwyd am eu cyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Pwyllgor.

**Eitem 5: Cynllun Premiwm Blynyddol ar gyfer Defaid (SAP)** - ARD 09-00(p6)

Dywedodd y Cadeirydd fod y Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd yn gwerthuso system cynhyrchu cig oen y Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn sgîl adroddiad gan Lys Archwilwyr Ewrop. Byddai adroddiad gwerthuso gan Goleg Amaethyddol yr Alban yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yr haf hwn, fwy na thebyg yn ystod mis Awst, ac roedd y Comisiwn yn debygol o gyhoeddi unrhyw gynigion ar gyfer diwygio'r system yn yr hydref. Roedd y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cynnig y safbwynt cyffredinol y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ei fabwysiadu wrth helpu i lunio safbwynt cyd-drafod Llywodraeth y DU.

5.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad fod y cynllun yn bwysig iawn i Gymru, gwerth bron i £90 miliwn y flwyddyn. Roedd angen gwneud paratoadau rhag ofn y byddai'r CE yn dod â chynigion gerbron i ddiwygio'r cynllun SAP a fyddai'n anfanteisiol i Gymru. Roedd dadl gref na ddylid mynd â'r broses o ddiwygio un sector ymlaen ar ei ben ei hun. Roedd yr Ysgrifennydd Cynulliad wedi codi'r mater â'r gweinidogion tiriogaethol wythnos ynghynt ac roeddent hwy yn cefnogi sefyllfa Cymru yn gyffredinol. Roedd swyddogion y Cynulliad yn cymryd rhan yn y broses o baratoi achos y DU.

5.3 Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwynt fod Cymru yn cynhyrchu ë yn bach yn bennaf, felly roedd yn arbennig o bwysig i wrthbrofi'r ddadl y dylai'r symiau a delir i gynhyrchwyr unigol ddibynnu ar eu cyfraniad at gyfanswm cynnyrch cig defaid. Nododd y Pwyllgor fod cyswllt â swyddogion y Comisiwn yn dangos fod pryderon yr archwiliad yn canolbwyntio ar weithredu'r mecanwaith prisio. Roedd y ffaith fod diffyg o ran y mecanwaith prisio yn peri anhawster wrth gynllunio cyllideb yn un o'r pwysau ychwanegol.

5.4 Rhoddodd y Pwyllgor sêl ei fendith ar yr argymhelliad yn y papur y dylai'r Ysgrifennydd Cynulliad ddadlau yn erbyn diwygio'r SAP yn sylfaenol yn ystod y cyfnod hwn.

**Eitem 6: Cofnodion cyfarfod 7 Mehefin** - ARD 08-00(min)

6.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2000.

**Yr Ysgrifenyddiaeth** **Mehefin 2000**